ATODLEN 1

Gwybodaeth i'w chofnodi

# RHAN 1

## Gwybodaeth i'w chofnodi gan gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach o ran personau sy'n darparu addysg nas cyflenwyd gan fusnes cyflogi

**1.** a yw swydd y person yn cynnwys gweithgaredd perthnasol;

**2.** a yw hunaniaeth y person wedi'i gwirio;

**3.** a wnaed gwiriad i gadarnhau a yw'r person yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a wnaed o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002;

**4.** a wnaed gwiriad i sicrhau bod y person yn bodloni'r holl ofynion cymhwyso perthnasol ar gyfer staff;

**5.** pan fo swydd y person yn cynnwys gweithgaredd perthnasol, a wnaed gwiriad manwl o'r cofnodion troseddol mewn perthynas ag ef;

**6.** a wnaed gwiriadau o'r math a ddisgrifir yn rheoliad 6 y barnwyd eu bod yn briodol mewn perthynas â'r person;

**7.** a wnaed gwiriad i gadarnhau bod gan y person hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;

**8.** ar gyfer pob gwiriad a wnaed yn y Rhan hon, y dyddiad pryd y cwblhawyd y gwiriad.